**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

9 Chwefror 2024

Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel).

Annwyl Vaughan,

Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr, trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr, trafododd y Pwyllgor y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, a'i Fil [1]a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig. Cytunwyd y byddwn yn ysgrifennu i ofyn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith paratoi mewn perthynas â'r DU yn dod yn aelod o'r Bartneriaeth, ac unrhyw ddatblygiadau gyda materion a godwyd fel pryderon yn nogfen Safbwynt Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 26 Hydref 2023.

Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, nododd y Pwyllgor hefyd fod Pennod 21 o'r ddogfen Safbwynt yn cyfeirio at gynlluniau i ymweld ag Awstralia ym mis Mawrth, gyda chynlluniau posibl ar gyfer ymweliadau marchnad â gwledydd eraill sy'n aelod o'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Mae Argymhelliad 31 o'n hadroddiad ar y gyllideb yn gofyn am ragor o wybodaeth am gostau sydd wedi'u cynllunio mewn perthynas â gweithredu cytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit. Byddwn yn ddiolchgar hefyd felly pe gallech hefyd roi diweddariad ar unrhyw ymweliadau arfaethedig gan Lywodraeth Cymru â gwledydd y Bartneriaeth.

Fel y byddwch yn gwybod, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr

[1] Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

Tawel) yw 15 Mawrth. Byddai ymateb erbyn dechrau mis Mawrth yn ddefnyddiol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried unrhyw faterion polisi masnach sy'n berthnasol i'r adroddiad hwnnw.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English